




Trosolwg Thema- Awyr Iach CC 1 a 2

Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?

<p><u>Iechyd a Lles</u></p> 	<p>Sut gall ein penderfyniadau bach wneud gwahaniaeth mawr i'n hiechyd a'r byd o'n cwmpas?</p> <p>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae eu dewisiadau bob dydd yn effeithio ar eu hiechyd nhw a iechyd pobl eraill. Byddant yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol a dychmygol, fel dewis rhwng cerdded neu ddefnyddio'r car, bwyd iach neu llai iach, a defnyddio plastig neu ailgylchu. Byddant yn ysgrifennu stori neu adroddiad byr i esbonio canlyniadau pob dewis, ac yn trefnu'r wybodaeth mewn tabl neu graff. Byddant hefyd yn defnyddio offer digidol i greu sleidiau neu graffiau sy'n dangos effaith eu penderfyniadau, gan ddysgu sut gall gwneud dewisiadau gwybodus wella eu hiechyd a bywyd pobl eraill, nawr ac yn y dyfodol.</p>
<p><u>Dyniaethau</u></p> 	<p>Sut mae cymunedau yn ymateb i newid hinsawdd?</p> <p>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae sut mae gweithgareddau dynol lleol yn effeithio ar yr amgylchedd. Byddant yn cerdded o gwmpas eu hardal leol i arsylwi sut mae pobl yn rhyngweithio â'r amgylchedd - cerdded, parcio, chwaraeon, sbwriel - ac yn ysgrifennu brawddegau byrion am yr hyn a welsoch, gan gyfri nifer o bobl a nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Byddant hefyd yn tynnu lluniau neu recordio fideo byr i ddogfennu'r arsylwadau, ac yn trafod sut mae gweithgareddau dynol yn effeithio ar awyr iach a bywyd gwylt. Yn ychwanegol, byddant yn dewis un math o weithgaredd dynol lleol i'w ymchwilio'n fanwl, gan greu graffiau neu ddeunydd digidol sy'n dangos yr effaith, a dysgu sut gall newid ymddygiad pobl helpu i gadw'r byd naturiol a'r awyr yn iach.</p>
<p><u>Gwyddoniaeth</u></p> 	<p>Sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar y berthynas rhwng pethau byw?</p> <p>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar berthynas rhwng pethau byw. Byddant yn arsylwi ecosystem leol, gan fynd am dro o gwmpas yr ardal leol i nodi planhigion, anifeiliaid a manau gwyrdd, ac yn creu map syml sy'n dangos lle mae pobl yn mynychu a pha effaith y gallai hynny gael ar natur. Byddant yn rhestru a chyfri planhigion a bywyd gwylt lleol, tynnu lluniau i greu albwm digidol, ac yn trafod sut mae penderfyniadau pobl yn effeithio ar oroesi'r pethau byw hyn. Yn ogystal, byddant yn dylunio poster neu fap sy'n dangos cylch bywyd lleol a sut mae pobl a natur yn cydweithio i gynnal ecosystem iach, gan ddeall cyd-ddibyniaeth pethau byw a'r effaith o weithgareddau dynol.</p>
<p><u>Celfyddydau Mynegiannol</u></p>	<p>Sut gallwn ni ddangos bywyd gwylt a'r amgylchedd trwy gelf a gwaith creadigol?</p> <p>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio natur ein hardal leol trwy gelf a gwaith creadigol. Byddant yn edrych ar luniau, fideos a gwaith artistiaid i ddeall bywyd gwylt a phwysigrwydd awyr iach, ac yn creu lluniau neu gollage sy'n dangos planhigion, anifeiliaid a'r amgylchedd. Trefnu deunyddiau yn grwpiau: naturiol / wedi'u hailgylchu.</p>

Trosolwg Thema- Awyr Iach CC 1 a 2

Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?



Byddant yn myfyrio ar y neges y mae eu gwaith yn ei chyfleu, rhannu adborth gyda'u cyfoedion, ac yn datblygu eu gwaith yn seiliedig ar y sylwadau hyn. Byddant hefyd yn **defnyddio offer digidol i dynnu lluniau neu greu fideo o'u prosiect**, yn ysgrifennu brawddegau am eu gwaith, ac yn cofnodi elfennau creadigol neu ddeunyddiau a ddefnyddir, gan gynnwys paent, papur, sbwriel ailgylchu neu ddeunyddiau naturiol. **Dilyniant a threfn- Trefnu'r camau i greu gwaith celf** (Yn gyntaf, casglu deunyddiau. Wedyn torri. Yn olaf gludo). Trafod y trefn gywir.

Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?

Cyd-destun Lleol: